

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Colofn: Camau nesaf A

Canolbwyntio eu sylw ar wrthrychau, gan eu trin a'u trafod drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Darparwch amrywiaeth o deganau diddorol neu wrthrychau bob dydd sy'n amrywio o ran gwedd, pwysau, siâp, maint a nodweddion eraill.	Mae'r dysgwr yn codi eitem, yn defnyddio'i ddwylo i'w chyfeiriadu fel bo modd ei harchwilio o wahanol onglau (cydsymud y dwylo a'r llygaid). Mae'r dysgwr yn cymhwyso amryw o strategaethau i 'brofi' priodweddau eitem, e.e. <i>ei rhoi yn ei geg, ei tharo yn erbyn bwrdd neu eitem arall, defnyddio'i fysedd i deimlo gwedd yr wyneb, ei thaflu, ac ati.</i> (canolbwyntio ar y gwrthrych yn ddigon hir i roi cynnig ar wahanol ddulliau).

Dangos diddordeb cynyddol mewn gweithgareddau rhif ac wrth gyfrif gydag oedolyn, copïo rhai gweithredoedd ac/neu'n lleisio ar adegau priodol	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Mewn amrywiaeth o weithgareddau trawsgwricwlaidd (e.e. <i>archwilio propiau sach stori, cynhwysion wrth goginio, concyrs mewn ysgolion coedwig neu curiadau drwm mewn cerddoriaeth</i>), anogwch y dysgwr i 'ymuno' wrth gyfrif, gan bwysleisio'r agwedd rythmig a'r cysylltiad rhwng y sŵn a'r weithred.	Mae'r dysgwr yn dangos diddordeb mewn cyfrif fel 'gêm' drwy: – efelychu ystumiau priodol (e.e. <i>pwyltio at yr eitemau sy'n cael eu cyfrif, neu eu cyffwrdd</i>) – ymuno drwy greu synau, lleisio neu daro (gan ymgeisio yn hytrach na llwyddo i gopïo'r rhythm).

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Defnyddio hoff wrthrych mewn ffordd newydd neu wahanol ar ôl gwylio oedolyn yn gwneud hynny	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Sylwch pa deganau neu wrthrychau bob dydd y mae'r dysgwr yn eu defnyddio'n arbennig. Sylwch pa strategaethau y mae'n eu defnyddio wrth wneud hynny. Dewiswch un eitem a chymryd tro gyda'r dysgwr yn trin a thrafod yr eitem honno, neu gael dwy fersiwn unfath o'r eitem a gwneud hynny gydag un gwrthrych yr un. Copiwch strategaethau'r dysgwr, yna gwnewch rywbeth gyda'r gwrthrych nad ydych wedi gweld y dysgwr yn ei wneud (<i>e.e. ei guddio, ei rollo ar lethr, ei roi mewn cynhwysydd</i>). Anogwch nhw eu copïo.	Er enghraifft, rhoi'r eitem yn ei geg, yn ei tharo yn erbyn bwrdd neu eitem arall, yn defnyddio'i fysedd i deimlo gwead yr wyneb, yn ei thaflu, ac ati. Mae'r dysgwr yn gwylio'r enghraifft ac yna'n rhoi cynnig ar gymhwyso strategaeth debyg i'w wrthrych ef.

Canfod a thynnu hoff wrthrych o blith casgliad o wahanol wrthrychau	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Sylwch pa deganau neu wrthrychau bob dydd y mae'r dysgwr yn eu defnyddio'n arbennig. Dewiswch un o'i ffefrynnau a'i 'guddio' ymhlith amrywiaeth o eitemau eraill llygad-dynol (<i>e.e. mewn bocs 'chwilota'</i>).	Mae'r dysgwr yn gweithio drwy'r eitemau, yna'n canfod ac yn cymryd ei ffefryn.

Adnabod y nifer mwyaf wrth drin niferoedd bach	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Gosodwch eitemau unfath y mae'r dysgwr yn eu hoffi mewn setiau wedi'u diffinio'n glir (gydag 1, 2, neu 3 eitem fesul set) a gofyn i'r dysgwr ddewis un set.	Sylwch a yw'r dysgwr yn dewis y set fwyaf yn gyson.

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Pwyntio at eitem ac yn lleisio ar adeg briodol er mwyn cyfeirio at rif wrth i oedolyn gyfrif	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Mewn gweithgaredd cyfrif 'hwyliog', anogwch y dysgwr i ymuno drwy gyfrif eitemau mewn modd rhythmig.	Mae'r dysgwr yn pwyntio neu'n cyfeirio at eitem ar yr un pryd ag y bydd yr oedolyn yn ei 'chyfrif', ac/neu'n lleisio ar yr un pryd ag y bydd yr oedolyn yn dweud y rhif wrth gyfrif.

Rhagweld yr uchafbwynt mewn caneuon neu rigymau rhif cyfarwydd (gan ddangos eginadnabyddiaeth o eiriau rhif)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Defnyddiwch gân neu gêm sy'n cynnwys cyfrif, y mae'r dysgwr yn gyfarwydd â hi. Anogwch y dysgwr i chwarae'r gêm gyda ffrind, plentyn iau neu degan, e.e. <i>chwarae 'adeiladu tŷ bach' gyda dol</i> .	Mae'r dysgwr yn ymuno gyda'r geiriau rhif/yn cynnig gair rhif os bydd yr oedolyn yn oedi (does dim ots a yw'r gair rhif yn gywir neu beidio). Mae'r dysgwr yn ymuno yn y cyfrif mewn rhyw fodd neu'i gilydd, heb ddefnyddio'r geiriau cywir o reidrwydd, ond o bosib yn efelychu rhythm y cyfrif.
Mae'r dysgwr i gyfrif am yn ôl i gychwyn ras.	Mae'r dysgwr yn defnyddio rhai geiriau rhif (ond heb fod yn y drefn gywir o reidrwydd).

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Rhoi darn arian yn gyfnewid am eitem ar ôl gweld eraill yn gwneud hynny mewn siop chwarae rôl (efallai does ganddynt ddim syniad beth yw gwerth y darn arian, ond yn cymryd rhan yn y rhyngweithio cymdeithasol)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Ewch ati i greu 'siop' yn yr ystafell ddosbarth. Paratowch y 'propiau' ar gyfer y cwsmer, gan gynnwys pwrs ac ynddo ddarnau arian, ac ar gyfer y siopwr, cownter ac arno ond dwy neu dair eitem wahanol 'ar werth'. Anogwch y dysgwr i arsylwi eraill yn prynu eitemau, yna rhowch ddarn arian a dweud wrthynt am gyfathrebu â'r siopwr. (Y siopwr i ddal yr eitem sydd ar werth a dal ei law allan er mwyn derbyn y darn arian.)	Mae'r dysgwr yn rhoi'r darn arian yn gyfnewid am yr eitem.

Archwilio'r gwahaniaethau rhwng gwrthrychau drwy eu gosod/eu dal ynghyd, eu huno/pentyrru/tynnu oddi wrth ei gilydd/rhoi mewn cynwysyddion	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhowch setiau mawr o eitemau y gellir eu cysylltu â'i gilydd, neu eu pentyrru y naill am ben y llall yn rhwydd (e.e. <i>blociau pren, brics adeiladu, ac ati</i>) a chynwysyddion (e.e. <i>cwpanau neu focsys y gellir eu pentyrru neu eu rhoi yn y naill a'r llall</i>) i'r dysgwr.	O gael eitemau wedi'u rhoi at ei gilydd (e.e. <i>brics wedi'u pentyrru neu eu rhoi at ei gilydd mewn rhes</i>), mae'r dysgwr yn ceisio taro'r pentwr drosodd neu'n tynnu'r darnau oddi wrth ei gilydd. O gael yr holl eitemau wedi'u gwahanu oddi wrth ei gilydd, mae'r dysgwr yn ceisio pentyrru neu gysylltu rhai eitemau, neu roi rhai eitemau y naill yn y llall.

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Dangos ymwybyddiaeth gynyddol o batrymau rhythmig ac yn dechrau gwneud rhai synau ar y cyd ag ystumiau neu wrth bwyntio	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Mewn sesiwn gerddoriaeth, sicrhewch y gall y dysgwr eich gweld a'ch clywed chi a'r dysgwyr eraill yn clapio neu'n taro'r curiad cywir. Anogwch y dysgwyr yn y grŵp i glapio neu ganu eu hofferyn, ond dim ond pan fyddwch yn pwyntio atynt.	Mae'r dysgwr yn ceisio clapio, taro offeryn cerdd neu fwrdd taro, a hynny i'r un curiad â model ar adegau. Mae'r dysgwr yn ceisio dechrau clapio neu daro offeryn cerdd neu fwrdd taro ar yr un pryd ag y bydd oedolyn yn pwyntio ato. Yn ystod cân gyfarwydd iawn, neu o gael microffon i ganu carioci, mae'r dysgwr yn ceisio lleisio alaw (gyda'r llais yn cyd-daro â'r alaw ar adegau).

'Casglu' a chadw amryw o eitemau sy'n rhannu nodwedd arbennig a ffafir, gan roi'r gweddill o'r neilltu	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Sylwch pa deganau neu wrthrychau bob dydd y mae'r dysgwr yn eu defnyddio'n arbennig. Nodwch unrhyw briodoleddau sy'n gyffredin rhyngddyn nhw. Dewiswch un o'r eitemau hyn, a chael amryw o fersiynau ohoni, neu casglwch amrywiaeth o eitemau a chanddyn nhw briodoleddau tebyg iawn i'w gilydd. Cymysgwch yr eitemau a ffafir (A) ag eitemau eraill llai diddorol (B) ar hambwrdd neu mewn cynhwysydd. (Gallai eitemau B gynnwys carpion papur, tywod, ac ati.) Wrth ryngweithio â'r dysgwr, rhowch gyfres o eitemau iddo y naill ar ôl y llall o gasgliadau (A) a (B).	Mae'r dysgwr yn dewis mwy nag un o'r eitemau a ffafir, gan geisio amryw ohonynt/cymaint ohonynt ag sy'n bosib yn ei feddiant. Mae'r dysgwr yn ceisio cymryd/cadw cymaint o eitemau (A) ag sy'n bosibl, gan wrthod eitemau (B).

Ar drywydd rhifedd
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Cyffwrdd, pwyntio neu rhoi gwrthrych fel 'ateb' mewn gweithgaredd rhifau	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Gan ddefnyddio unrhyw un o'r gweithgareddau yn y golofn hon yn y grid (e.e. <i>wrth gyfrif</i>), gofynnwch i'r dysgwr gyflwyno neu bwyntio at eitem.	Mae'r dysgwr yn ymateb yn briodol i'r cais mewn cyd-destun rhifedd.

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Colofn: Camau nesaf B

Rhoi sylw ac yn ymateb i eiriau rhif, ac yn eu defnyddio, mewn gweithgareddau strwythuredig a arweinir gan oedolyn	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Gosodwch gyfres o focsys bach unfath a nodi rhif ar bob un – dywedwch wrth y dysgwr fod rhywbeth wedi'i guddio yn un ohonyn nhw, a gofyn 'Pa focs wyt ti am edrych ynddo?'. Os yw'r dysgwr yn pwyntio at focs, gofynnwch: 'Beth yw rhif y bocs yna?'.	Bydd y dysgwr yn dweud rhif (ac fel arfer yn gywir wrth gyfeirio at '1' a '2').
Defnyddiwch rigymau rhif y mae'r dysgwr yn gyfarwydd â nhw, oedwch gan ddangos llun o rif bach (1–3), ac arhoswch.	Mae'r dysgwr yn defnyddio rhif (ac fel arfer yn gywir wrth gyfeirio at '1' a '2').

Cynorthwyo i gyfrif ac yn paru eitemau unfath pan gaiff tasg ei strwythuro gan oedolyn	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
'Beth am gyfrif y cwpanau . . . '. Mae oedolyn yn dewis y cwpan cyntaf ac yn cyfrif '1'; 'Elli di ganfod cwpan (yn pwyntio at gwpan)?' ac mae oedolyn yn cyfrif y cwpan nesa, ac ati. Darparwch 3 cwpan a 3 soser er mwyn i'r dysgwr dewis.	Mae'r dysgwr yn dewis cwpan bob tro er mwyn i'r oedolyn ei gyfrif. Ailadrodd nes bo'r holl gwpanau wedi'u cyfrif.

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Dechrau trin eitemau cyfarwydd yn debyg er gwaethaf y gwahaniaethau rhyngddynt o ran ymddangosiad, neu'r cyfrwng a ddefnyddir i'w cynrychioli (ar ffurf gwrthrychau, lluniau, ac ati)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhowch hambwrdd i bob dysgwr ac arno ddwy set o wrthrychau cyfarwydd iawn. Dylai un o'r setiau gynnwys eitemau sydd ychydig yn wahanol i'w gilydd (e.e. <i>cwpanau o wahanol feintiau</i>). Cymysgwch rhain ag eitemau eraill (yr un math). Tynnwch luniau o eitemau, pobl a lleoedd cyfarwydd iawn o amryw o onglau.	Mae'r dysgwr yn gallu didoli'r 'cwpanau' o'r set. Mae'r dysgwr yn dangos ei fod yn adnabod yr hyn a ddarlunnir (e.e. <i>yn pwyntio at wrthrych, person neu leoliad</i>).

Gwyllo oedolyn yn rhoi nifer o eitemau mewn trefn arbennig (e.e. <i>gosod ceir mewn rhes</i>), ac yna'n ceisio'i gopïo	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhowch set sy'n cynnwys llawer o eitemau tebyg i'r dysgwr. Sylwch ar strategaethau'r dysgwr ar gyfer trefnu'r eitemau hynny. Rhannwch yr eitemau a gosod rhai ohonyn nhw mewn rhes hir (neu mewn pentwr y naill am ben y llall). Anogwch y dysgwr i wneud hynny hefyd.	Mae'r dysgwr yn creu patrwm tebyg gyda'i eitemau ei hun.

Chwilio am bob eitem coll pan fydd 2 neu 3 gwrthrych wedi'u cuddio	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Cuddiwch wrthrychau (y gwyddoch sydd o ddiddordeb i'r dysgwr) tra ei fod yn gwyllo, a'i wahodd i chwilio amdano.	Mae'r dysgwr yn parhau i chwilio os yw gwrthrych ar goll o hyd.

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Cyfrif 2 neu 3 gwrthrych gyda chefnogaeth	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Trefnwch nifer fach o wrthrychau sydd o ddiddordeb i'r dysgwr mewn llinell gan adael ychydig o le rhyngddyn nhw. Gofynnwch i'r dysgwr bwyntio wrth i chi gyfrif neu gyfrif wrth i chi bwyntio, e.e. <i>'Beth am gyfrif y bisgedi? Pwyntia di, ac fe wna i gyfrif.'</i> neu <i>'Beth wyt ti eisiau ei wneud, cyfrif 'ta pwyntio?'</i>	Mae'r dysgwr yn pwyntio at un eitem am bob rhif y mae'r oedolyn yn ei gyfrif, neu mae'r dysgwr yn cyfrif un bob eitem y mae'r oedolyn yn pwyntio ati.

Adrodd rhifau o 1 i 5 fel 'siant' (heb ganfyddiad llawn o'r bylchau rhyngddynt na pharu'r cyfrif ag eitemau)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Trefnwch nifer o wrthrychau sydd o ddiddordeb i'r dysgwr mewn llinell gan adael ychydig o le rhyngddyn nhw. Dangoswch sut i gyfrif 5 eitem, yna gofyn i'r dysgwr eu cyfrif wrth i chi bwyntio.	Mae'r dysgwr yn lleisio synau sy'n debyg i 1–5 ond nid yw'r 'rhifau' yn cyd-daro â'r eitemau bob tro.

Cysylltu rhifolion (1 a 2) â gweithgareddau rhif	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Ar gyfer nifer o setiau bychain (1 i 3) dangoswch labeli rhif i'r dysgwr, gan ddweud pethau fel 'Mae gen i 'un' yn fan hyn. Ble dylen ni ei roi e?'.	Mae'r dysgwr yn paru label â set (fel arfer yn gywir gydag '1' neu '2').

Gwybod bod '2' yn fwy nag '1'	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhowch yr eitemau mewn bocsys fel bod gennych chi ddwy set sy'n cynnwys nifer wahanol (1–3) o eitemau (hawdd eu gweld). Ar ôl paru'r labeli â'r bocsys, gofynnwch i'r dysgwr ddweud pa focs sy'n cynnwys y 'mwyaf'.	Mae'r dysgwr yn cyflwyno bocs, neu'n pwyntio ato (fel arfer yn gywir gydag '1' neu '2' eitem).

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Pwyntio at eitem o'u dewis o blith dwy neu dair eitem mewn siop chwarae rôl yna'n rhoi darn(au) arian yn gyfnewid am yr eitem	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Ewch ati i greu 'siop' yn yr ystafell ddosbarth. Paratowch y 'propiau' ar gyfer y cwsmer, gan gynnwys pwrs ac ynddo ddarnau arian, ac ar gyfer y siopwr, cownter ac arno ond 2 neu 3 eitem wahanol 'ar werth'. Rhowch gyfle i'r dysgwr gael chwarae rhan y siopwr, gan roi eitem i'r cwsmer a derbyn darn arian. Yna cyfnewidiwch y rhannau.	Mae'r dysgwr yn cyfeirio at eitem, wedyn – yn ddigymell – yn rhoi (unrhyw) ddarn(au) arian yn gyfnewid am yr eitem.

Canfod darnau arian o gasgliad cyfyngedig sydd yr un peth â'r darnau arian a ddangosir gan oedolyn	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Casglwch ddwy set o ddarnau arian 1, 5, 10, 20 a 50 ceiniog (rhai go iawn). Rhowch un set o flaen y dysgwr. Rhowch un darn arian o'r set arall o'ch blaen, pwyntiwch ato, a gofynnwch i'r dysgwr, 'Chwilia am y darn arian sydd yr <u>un fath</u>'. Cefnogwch ddealltwriaeth y dysgwr o air allweddol (wedi'i danlinellu), e.e. <i>drwy ddefnyddio arwydd neu symbol</i>.	Mae'r dysgwr yn canfod darn arian cyfatebol.

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Canfod y gwrthrych 'mawr' o blith 2 eitem sy'n debyg fel arall lle ceir gwahaniaeth mawr rhyngddynt o ran maint mewn gweithgaredd strwythuredig gan oedolyn	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Gwnewch gasgliad o barau o wrthrychau - mae pob pâr yr un fath o ran maint (un yn llawer mwy na'r llall). 1. Rhewch un pâr o wrthrychau o flaen y dysgwr, gan ddweud: '<u>Ble</u> mae'r un <u>mawr</u>?' Cefnogwch ddealltwriaeth y dysgwr o eiriau allweddol (wedi'u tanlinellu), e.e. <i>drwy ddefnyddio arwydd neu symbol</i>. 2. Os yw'r dysgwr yn dewis y gwrthrych anghywir, rhewch y gwrthrych yn ôl heb wneud unrhyw sylwadau, yna codwch yr un cywir gan ddweud/arwyddo: '<u>Dyma</u>'r un <u>mawr</u>'. Yna ailadroddwch gam 1. 3. Rhewch gynnig ar y pâr nesaf o wrthrychau.	Mae'r dysgwr yn rhoi'r eitem 'fawr' yn gyson.

Canfod gwrthrych sydd yr un peth o blith casgliad bach o wrthrychau mewn gweithgaredd strwythuredig gan oedolyn	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Casglwch ddwy set o wrthrychau sy'n cynnwys eitemau o 3 (gwahanol) hyd/uchder/pwysau neu siâp. Rhowch un set o flaen y dysgwr. Rhewch un gwrthrych o'r set arall o'ch blaen, pwyntiwch ato, a gofynnwch i'r dysgwr, 'Chwilia am y gwrthrych sydd yr <u>un fath</u>'. Cefnogwch ddealltwriaeth y dysgwr o air allweddol (wedi'i danlinellu), e.e. <i>drwy ddefnyddio arwydd neu symbol</i>. Anogwch y dysgwr i gymryd yr eitem darged o'ch set a'i dal wrth ochr/ar ben eitem yn ei set.	Mae'r dysgwr yn rhoi'r eitem darged wrth ochr/ar ben gwrthrych yn ei set (un ym mhob llaw ar gyfer pwysau), gan drin a thrafod neu ailddewis hyd nes ei fod yn sicr ei fod yn cyfateb. Mae'n dangos pan fydd y dysgwr wedi canfod pâr.

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Addasu'r cyflymder wrth guro dwylo i gyfateb â model (cyflymach neu arafach)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Mewn grŵp, clapiwch, curwch benliniau, siglwch neu dapiwch offerynnau taro i'r un curiad â rhythm syml (curiad). Anogwch y dysgwyr i edrych (gorbwysleiswch y weithred rythmig er mwyn iddynt allu ei gweld). Pan fydd y dysgwr yn cadw i'r curiad cywir, arafwch neu cyflymwch y rhythm a'i annog i ddilyn.	Mae'r dysgwr yn sylwi ar y newid yn y tempo ac yn addasu'r clapio i gyfateb â hynny, ac ati.

Rhagweld digwyddiad arferol pan gaiff ei gynrychioli ar ffurf llun/symbol neu wrthrych perthnasol	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Yn union cyn gweithgaredd, dangoswch lun/symbol neu wrthrych cyfeirio i'r dysgwr wedi'i ddewis i gynrychioli mor agos â phosibl ei brofiad ei hun o'r digwyddiad. (Rhaid bod yn ddigwyddiad y mae'n cymryd rhan ynddo yn rheolaidd).	Mae'r dysgwr yn ymateb gyda diddordeb, brwdfrydedd neu'n dangos mewn rhyw ffordd arall ei fod wedi deall beth sydd ar fin digwydd, e.e. <i>drwy gasglu tywel nofio neu symud tuag at leoliad y gweithgaredd.</i>

Gwahanu gwrthrychau sy'n rhannu nodwedd gyffredin (o'i ddewis eu hunain) o gasgliad	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhowch gasgliad o wrthrychau amrywiol i'r dysgwr. Dylai rhai o'r gwrthrychau yn y casgliad rannu nodwedd gyffredin (e.e. <i>bod rhai ohonyn nhw'n 'goch' neu'n 'gynwysyddion', bod rhai'n 'teimlo'n feddal', ac ati</i>) gan fod yn debyg mewn rhai agweddau ond yn annhebyg mewn agweddau eraill.	Mae'r dysgwr yn rhannu'r gwrthrychau'n grwpiau neu'n eu didoli ac yn dechrau cyfleu'r briodoledd gyffredin. Gallai'r dosbarthu fod yn anghyson ac/neu'n fympwyol. (Efallai na fydd y dosbarthiad yn gwbl gyson, ond yn dangos diddordeb mewn trefnu eitemau mewn ffyrdd gwahanol.)

**Ar drywydd rhifedd
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau**

Paru gwrthrych â gwrthrych sydd yr un fath a llun â llun sydd yr un fath	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Mewn ystod eang o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm, rhwch gyfleoedd i baru gwrthrychau a lluniau. Rhwch wrthrych neu lun i'r dysgwr. Nodwch leoliad cyffredinol yr eitem gyfatebol (ymysg un neu ragor o wrthdynwyr).	Mae'r dysgwr yn rhoi'r gwrthrych neu'r llun ar neu yn agos i'r eitem gyfatebol.

Paru gwrthrych cyfarwydd iawn â llun clir o eitem sydd yr un fath	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Tynnwch ffotograffau clir o wrthrychau sydd i'w cael yn yr ystafell ddosbarth. Gosodwch gasgliad o wahanol wrthrychau o flaen y dysgwr (sydd yn cyfateb yn union â'r ffotograffau). Anogwch y dysgwr i baru'r gwrthrychau â'r ffotograffau cyfatebol. (Gellid hefyd ddefnyddio'r ffotograffau fel labeli ar gynwysyddion addas a gosod y gwrthrychau ynddyn nhw.)	Mae'r dysgwr yn gosod gwrthrych ar y ffotograff cyfatebol (neu yn y cynhwysydd cyfatebol).

Ymateb yn briodol i rai geiriau sy'n disgrifio lleoliad (e.e. <i>yn</i>), maint (e.e. <i>mawr</i>) a nifer (e.e. <i>mwyl</i>) wrth eu cymhwyso i wrthrychau gwirioneddol	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Defnyddio casgliad o wrthrychau bach (e.e. <i>melysion</i>) a chynhwysyddion gyda chloriau: 1. Gofynnwch i'r dysgwr roi eitem benodol 'yn' y cynhwysydd, e.e. <i>Rho'r melysion yn y jar</i>'. (Rhowch y melysion iddynt. Gwnewch yn siŵr bod y jar ar y bwrdd gyda'r clawr arno.) Estynnwch hwn i gynhwysyddion yn yr ystafell ddosbarth, e.e. <i>'Rho'r pensil yn y drôr</i>'. Gofynnwch i'r dysgwr 'Rho un bric/mwyl o frics i mi'.	Mae'r dysgwr yn tynnu'r clawr ac yn rhoi'r eitem i mewn. Mae'r dysgwr yn rhoi'r nifer priodol o eitemau.

Ar drywydd rhifedd
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Trin a thrafod gwrthrychau neu luniau mewn gemau a gweithgareddau rhif syml – bydd lleoliad terfynol yr eitemau'n cofnodi'r datrysiad	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Gosodwch dasg yn gysylltiedig â rhifau i'r dysgwr, <i>e.e. rhoi eitemau mewn cynhwysydd fel bod dwy eitem ym mhob cynhwysydd (eitemau a chynhwysyddion ar hambwrdd).</i>	Mae'r dysgwr yn cwblhau'r dasg ac yn dangos i'r oedolyn ei fod wedi gorffen, <i>e.e. drwy gyfeirio at y datrysiad neu ei gyflwyno (e.e. wedi'i arddangos ar hambwrdd) i'r oedolyn.</i>

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Colofn: Camau nesaf C

Cyfrif ac yn cymharu y tu allan i weithgareddau lle ceir ffocws ar addysgu	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Sylwch ar y dysgwr wrth iddo chwarae a rhyngweithio â'r adnoddau yn yr amgylchedd dysgu.	Mae'r dysgwr yn defnyddio sgiliau cyfrif a chymharu'n ddigymell, gan gynnwys y sgiliau hynny y mae wedi dod ar eu traws yn ystod sesiynau lle canolbwyntir ar addysgu.

Dethol a thrin a thrafod gwrthrychau er mwyn helpu i ddatrys problem	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhowch amrywiaeth o wrthrychau i'r dysgwr (dewis o dri) yng nghydestun tasg datrys problemau, e.e. yn <i>The Lighthouse Keeper's Lunch</i> 'Pa raff sy'n ddigon hir?' (i fynd rhwng y goleudy a'r bwthyn). 'Pa glawr sydd ei angen ar gyfer y jar yma?	Mae'r dysgwr yn dewis gwrthrychau fel 'offer' i'w cymhwyso i broblem rhifedd, yn hytrach nag am fod ganddo ddiddordeb yn y gwrthrychau eu hunain, e.e. <i>pren digon hir i bontio bwlch (dewis o blith tri)</i> .

Cwblhau tasg lle mae angen cymryd amryw o gamau	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Dewiswch dasg rhifedd y mae grŵp y dysgwr yn ei hymarfer yn rheolaidd, lle mae angen offer/cyfarpar y mae'r dysgwr yn hen gyfarwydd â'u lleoliad, e.e. <i>canfod faint o aelodau o'r dosbarth sy'n bresennol, a faint ohonyn nhw sydd am gael cinio</i> .	Mae'r dysgwr yn: – cyfrif nifer y plant – copïo neu'n canfod cerdyn rhif i gyfrif parau – adrodd y canlyniad (e.e. <i>i'r gegin neu'r swyddfa</i>).

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Gwneud amcangyfrif syml (e.e. faint o wrthrychau fydd yn ffitio mewn cynhwysydd)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhowch gynhwysyddion amrywiol i'r dysgwr ac eitemau sy'n ddigon mawr i ffitio ynddynt mewn niferoedd bach, e.e. <i>peli mewn bocs</i> .	Mae'r dysgwr yn amcangyfrif nifer yr eitemau fydd yn ffitio. Mae'r dysgwr yn dyfalu'n gywir gan ddweud a oes angen 'mwy' neu os ydynt wedi dewis 'gormod'. Mae'r dysgwr yn ceisio dyfalu ac mae'r amcangyfrifon dilynol yn fwy cywir.
Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr ymlaen i'r cam hwn)	
Rhowch botiau blodau (sgwâr) i'r dysgwr o feintiau gwahanol (6 o bob un) a nifer o hambyrddau hadau neu waelodion potiau plastig o feintiau gwahanol. Llenwch yr hambwrdd yn rhannol â photiau hyd nes bod rhwng 1 a 5 lle yn wag (mewn bloc). Rhowch y potiau yn agos i'r dysgwr, gyda'r hambwrdd ychydig ymhellach i ffwrdd. Gofynnwch i'r dysgwr ddyfalu 'Faint o botiau sy'n gallu mynd yma?' a thynnwch sylw at y bwlch, gan ddweud 'Dyfala di'. (Gallent ddewis cerdyn rhif i gofnodi ei amcangyfrif). Anogwch y dysgwr i gyfrif y nifer cyfatebol o botiau a cheisio eu ffitio ar yr hambwrdd. Mae pob un o'r dysgwyr yn gwerthuso pob dyfaliad: 'Sawl un oedd John wedi'i ddyfalu? Oedd e'n ddyfaliad da?', 'Beth am roi cynnig arall arni.' Ailadroddwch, gan amrywio maint y lle sydd ar gael, y potiau (a'r hambwrdd). Gellir defnyddio dull tebyg i amcangyfrif nifer y darnau sydd ar goll o bos jig-so sydd bron yn gyflawn, neu eitemau (e.e. <i>cadeiriau neu blant</i>) o fewn cylch rhaff ar y llawr.	

Sylwi os bydd patrwm yn anghywir, lle bo eitemau mewn parau, ac yn ei unioni drwy gwblhau'r set neu dynnu'r eitem nad yw'n perthyn	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Cyflwynwch barau syml ond anghyflawn/anghyfatebol i'r dysgwr mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd, e.e. <i>cyllyll a ffyrw wedi'u gosod ar ffwrdd, parau o esgidiau, esgidiau mawr neu fenig, sanau ar lein ddillad, dau dŵr o frics o wahanol uchder, parau o blant, ac ati</i> .	Mae'r dysgwr yn addasu neu'n gwneud y setiau'n gyfartal drwy drin a thrafod eitemau neu ddweud yr hyn sydd o'i le, a'r hyn sydd angen ei wneud.

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Dehongli rhifau ysgrifenedig yn gywir (1–3) mewn tasg ymarferol (e.e. yn darllen '3' ac yn rhoi nifer cyfatebol o ddiodydd i eraill)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Mewn amrywiaeth o gyd-destunau (ac fel trefn arferol), gosodwch y dasg o gasglu neu o ddosbarthu eitemau (e.e. <i>cwpanau</i>, <i>platiau</i>, <i>diodydd</i>, <i>pensiliau</i>, <i>cynhwysion ar gyfer rysâit</i>, <i>ac ati</i>) i wahanol aelodau o'r grŵp. Rhowch gerdyn i'r dysgwr sy'n dangos y rhifolyn ynghyd â llun neu symbol i gynrychioli'r eitem sydd ei hangen, gan ddweud 'loan, elli di gael hyd i'r rhain?'.	Mae'r dysgwr yn edrych ar y cerdyn, wedyn yn canfod/dewis y nifer cywir o eitemau yn annibynnol ac yn eu casglu ynghyd (e.e. <i>ar hambwrdd</i>) neu'n eu dosbarthu ymysg aelodau'r grŵp. (Gellir ymestyn y gweithgaredd hwn i asesu 'mwy' – gweler isod.)

Defnyddio cysyniadau gohebiaeth un wrth un a chardinaliaeth â 3 gwrthrych (ar ôl cyfrif 3 gwrthrych, yn datgan bod '3' eitem yn y casgliad)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Trefnwch 1, 2 neu 3 gwrthrych mewn llinell gan adael ychydig o fwch rhyngddyn nhw. Gofynnwch i'r dysgwr eu cyfrif.	Mae'r dysgwr yn cyfrif pob eitem yn annibynnol, gan gyffwrdd neu bwyntio at yr eitem wrth ddweud y rhif perthnasol. Mae'r dysgwr wedyn yn dweud bod '1', '2' neu '3' eitem yn y set. (Gallai'r dysgwr fod yn ateb y cwestiwn 'Faint sydd yna?'.)

Adrodd rhifau o 1 i 10, mae'r rhifau'n eglur ac yn cyfateb ag eitemau sydd wedi'u cyfrif (ond mae'n rhaid dechrau'r cyfrif bob tro ar 1).	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Trefnwch hyd at 10 gwrthrych mewn llinell gan adael rhywfaint o le rhyngddyn nhw. Gofynnwch i'r dysgwr eu cyfrif.	Mae'r dysgwr yn dweud yr holl rifau o 1–10, fel arfer gan gyffwrdd neu bwyntio at yr eitemau ar yr un pryd, ond yn colli cyfrif yn hawdd ac yna'n gorfod 'aildechrau' o 1. Nid yw'r ateb i 'Faint sydd yna?' yn gywir y tu hwnt i 3.

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Adnabod (enwi) rhifolion 1–3 ac yn eu rhoi mewn trefn, ac mae'n bosib eu bod yn gallu eu copïo neu ddargopïo	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhowch gardiau i'r dysgwr (yn nhrefn ar hap) sy'n dangos y rhifolion 1-3. NEU Rhowch raglen rifedd iddynt ar y cyfrifiadur lle mae angen trefnu'r rhifolion. Gofynnwch i'r dysgwr gopïo neu ddargopïo'r rhifau ar bapur, mewn tywod neu ar y cyfrifiadur.	Mae'r dysgwr yn enwi pob rhif ac yn eu rhoi mewn trefn rifiadol. Mae'r dysgwr yn cynhyrchu '1' adnabyddadwy ac o leiaf un rhif arall.

Ychwanegu 'mwy' at, neu 'dynnu i ffwrdd' o gasgliad, mewn gweithgaredd strwythuredig gydag oedolyn, gan ailgyfrif er mwyn creu cyfanswm newydd	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Mewn tasg lle mae angen i'r dysgwr ddewis nifer o eitemau i'w dosbarthu i grŵp o blant, rhowch gerdyn i'r dysgwr sy'n dangos rhifolyn ynghyd â llun neu symbol i gynrychioli'r eitem sydd ei hangen, gan ddweud 'loan, elli di ganfod y rhain?'. Dewiswch rif sy'n llai neu'n fwy na'r nifer yn y grŵp. Pan fydd yr eitemau wedi'u dosbarthu i'r grŵp, anogwch y dysgwr i gywiro'r anghysondeb, e.e. <i>dywedwch 'O, beth sydd o'i le?'.</i>	Mae'r dysgwr yn dewis eitem(au) ychwanegol ac yn ei/eu dosbarthu, neu'n cymryd eitem(au) ymaith. Mae'r dysgwr yn defnyddio geiriau rhif, e.e. '<i>mwy</i>', '<i>llai</i>', '<i>gormod</i>', '<i>tynnu i ffwrdd</i>'. Mae'r dysgwr yn cyfrif yr eitemau eto er mwyn canfod beth yw'r cyfanswm newydd.

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Rhoi arian yn gyfnewid am eitem mewn siop go iawn pan fydd y darnau arian a'r dewis wedi'u paratoi ymlaen llaw	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Cyn mynd i siopa, rhowch ffotograff, llun, symbol neu air wedi'i ysgrifennu i atgoffa'r dysgwr o'r eitem darged. Paratowch y darnau arian a lle i'w cadw. Mewn siop hunanddewis (e.e. <i>archfarchnad</i>), cynorthwyywch y dysgwr i ganfod yr eitem, yna ewch at y til. (Dywedwch wrth y dysgwr am aros i gael newid, os oes angen.)	Mae'r dysgwr yn cyflwyno'r eitem wrth y til, yn canfod yr arian, yn rhoi'r darnau arian i'r sawl sydd wrth y til, (yn aros am newid), yna'n cymryd yr eitem.

Didoli darnau arian yn unol ag un priodoledd (e.e. <i>lliw, maint neu siâp</i>)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhowch gyfuniadau o ddarnau arian i'r dysgwr gan sicrhau bod un brif nodwedd wahanol ganddynt (<i>1c/5c/£1 neu 2c/10c/£1</i>), <i>yr un lliw ond maint gwahanol (1c/2c neu 5c/10c) neu'r un lliw ond siâp gwahanol (5c/20c neu 10c/50c)</i>.	Mae'r dysgwr yn didoli pob cyfuniad.

Cymharu, yn annibynnol, maint gwrthrychau drwy eu gosod mewn llinell neu eu dal gyda'i gilydd	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Cyflwynwch setiau i'r dysgwr sy'n cynnwys 2 wrthrych o'r un hyd neu uchder, tra bo'r holl wrthrychau eraill ychydig yn hwy/fyrrach (neu'n uwch/is). Gofynnwch i'r dysgwr, 'Mae angen canfod dau sydd yr un fath'.	Mae'r dysgwr yn rhoi'r gwrthrychau wrth ochr/ar ben ei gilydd a'u gosod mewn llinell i edrych ar y gwahaniaethau bach. Mae'r dysgwr yn rhoi'r ddau wrthrych sydd yr un fath.

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Canfod yr un 'mawr' o ddwy eitem a gallu rhoi amryw o wrthrychau mewn trefn yn ôl eu maint	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Gan ddefnyddio casgliad o eitemau o hyd amrywiol, cyflwynwch ddau yr un pryd, gan ofyn i'r dysgwr ganfod yr un 'mawr'. Dechreuwch gyda gwahaniaeth mawr, gan leihau'r gwahaniaeth yn raddol i'r lleiaf posibl. Gan gymryd 5 o'r eitemau, dangoswch i'r dysgwr sut i'w rhoi nhw mewn trefn ('bach, mwy, mwy . . . 'byr, hwy, hwy . . .'). Nawr cymysgwch nhw a'u rhoi i'r dysgwr gan ddweud, 'Nawr, gwna di'r un peth'.	Mae'r dysgwr yn rhoi'r eitem fwy yn gyson, hyd yn oed pan fydd y gwahaniaeth lleiaf. Mae'r dysgwr yn rhoi pob un o'r 5 eitem mewn trefn.

Defnyddio llinell amser syml o luniau er mwyn deall dilyniant digwyddiadau a gweithgareddau	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhowch linell amser o luniau/symbolau (wedi'i phersonoli) i'r dysgwr sy'n dangos o leiaf dau ddigwyddiad neu weithgaredd byr yn y drefn y disgwylir iddynt ddigwydd.	Mae'r dysgwr yn edrych ar y symbolau ar linell amser/amserlen ac yn dechrau'r gweithgaredd cyntaf. Ar ôl cwblhau'r dasg gyntaf, mae'r dysgwr yn dychwelyd (neu'n cael ei annog i ddychwelyd) i'r llinell amser ac yn dechrau'r gweithgaredd nesaf yn annibynnol.

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Derbyn bod angen aros am weithgaredd a ffafir drwy gyfeirio at y llinell amser (yn defnyddio'r cysyniad 'wedi gorffen' a 'nesaf')	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Mae'r dysgwr yn gofyn, neu'n mynegi dymuniad mewn rhyw ffordd arall am weithgaredd/digwyddiad arbennig nad yw'n bosibl (neu'n ddymunol) ar ei gyfer ar y pryd. Dywedwch wrtho am edrych ar ei linell amser/amserlen (wedi'i phersonoli) (sy'n cynnwys lluniau neu symbolau o'r gweithgareddau a wneir 'yn gyntaf' a 'nesaf').	Mae'r dysgwr yn edrych ar y symbolau ar y llinell amser/amserlen. Mae'r dysgwr yn cwblhau'r gweithgaredd a wneir 'yn gyntaf'. Mae'r dysgwr yn cael gwared â'r eitem a wneir 'yn gyntaf' (ac yn ei rhoi yn y bocs 'wedi gorffen'). Mae'r dysgwr yn gofyn am y gweithgaredd 'nesaf' ac yn cael/dechrau'r gweithgaredd hwnnw.

Gwahanu gwrthrychau sy'n rhannu priodoledd penodedig (e.e. mawr/bach, crwn)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhowch gasgliad o wrthrychau i'r dysgwr sydd yr un fath ym mhob un ond un agwedd, e.e. <i>cwpanau mawr a bach (patrwm unfath), siapiau crwn a sgwâr (lliw unfath)</i>. Gofynnwch i'r dysgwr roi'r holl eitemau 'mawr' neu 'grwn' i chi.	Mae'r dysgwr yn gwrando ar y cais ac yn tynnu'r holl eitemau sydd â'r priodoledd penodedig allan o'r casgliad.

Cyfuno parau cysylltiedig o wrthrychau neu luniau (e.e. cylllell a fforc, cwpan a soser)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhowch gasgliad o barau o wrthrychau neu (luniau sy'n darlunio'r rhain) i'r dysgwr, e.e. <i>cylllell a ffyrc, cwpanau a soseri, parau o esgidiau, neu fenig a sanau</i>.	Mae'r dysgwr yn rhoi'r holl eitemau yn barau cywir.

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Didoli a rhoi eitemau mewn dilyniant er mwyn cael trefn arnynt	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ymarferol bob dydd (megis tacluso) ar ôl gweithgaredd, mae'r dysgwr yn gallu didoli a rhoi eitemau mewn dilyniant er mwyn cael trefn arnynt.	Mae'r dysgwr yn defnyddio strategaethau didoli a threfnu syml i roi eitemau mewn trefn, e.e. <i>pentyrru soseri, didoli cylllyll a ffyrc, rhoi cwpanau neu botiau blodau ar ben ei gilydd, didoli pensiliau lliw a'u rhoi mewn cynhwysyddion, rhoi eitemau mewn droriau neu hambyrddau wedi'u labelu ac ati.</i>

Ymateb yn briodol i eiriau sy'n disgrifio lleoliad (e.e. <i>yn/mewn, ar, o dan</i>), maint (e.e. <i>mawr/bach</i>) a nifer (e.e. <i>rhywfaint, mwy, llawer</i>) a'u defnyddio mewn cyd-destun, ond heb wneud hynny'n gywir bob tro	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Gan ddefnyddio casgliad o eitemau tebyg (e.e. brics) a dau focs sydd yr un fath (un ben i waered), gofynnwch i'r dysgwr roi eitem benodol 'yn/ar' neu 'o dan' y bocs. Rhewch yr eitem iddo).	Mae'r dysgwr yn gosod yr eitem gywir yn gyson.
Gofynnwch i'r dysgwr roi eitemau 'mawr' a 'bach' i chi o gasgliad, e.e. <i>'Rho'r llyfr bach i mi' (arwyddwch y gair sydd wedi'i danlinellu er mwyn canolbwyntio ar y nodwedd).</i>	Mae'r dysgwr yn rhoi'r eitem gywir yn gyson.
Gofynnwch i'r dysgwr roi 'un'/'rhywfaint'/'mwy'/'llawer' o eitem benodol i chi.	Mae'r dysgwr yn rhoi'r nifer priodol o eitemau cywir yn gyson.
Newidiwch rolau ar gyfer y gweithgareddau uchod ('Nawr ti yw'r athro a gofynna di i mi')	Mae'r dysgwr yn defnyddio rhai geiriau safle, maint neu nifer wrth roi cyfarwyddiadau.
Defnyddiwch luniau sy'n darlunio'r uchod.	Mae'r dysgwr yn ymateb yn briodol i luniau.
Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr ymlaen i'r cam hwn)	
1. Gofynnwch i'r dysgwr roi eitem benodol 'yn' y bocs, e.e. <i>'Rho'r bric yn y bocs'.</i> (Rhewch y bric i'r dysgwr a phwyntiwch at y bocs cywir).	
2. Gofynnwch i'r dysgwr 'Rho'r bric o dan y bocs'. (Rhewch y bric i'r dysgwr a phwyntiwch at y bocs arall).	

Ar drywydd rhifedd Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

3. Ailadroddwch geisiadau 1 a 2 a rhowch y bric i'r dysgwr ar hap heb ddangos pa focs.
4. Ailadroddwch y drefn uchod ond cyferbynnwch 'ar' gydag 'o dan'. Cyfunwch geisiadau ar gyfer 'yn/ar' ac 'o dan' dim ond pan fydd y dysgwr wedi meistroli 'yn/o dan' ac 'ar/o dan' ar wahân.

Cofnodi rhifau drwy baru rhifolyn â chyfres o eitemau (hyd at 3)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Gosodwch allan setiau bach o wrthrychau (1, 2, neu 3 eitem) a rhowch labeli rhif i'r dysgwr. Anogwch y dysgwr i labelu'r setiau.	Mae'r dysgwr yn labelu'r setiau'n gywir.